

CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR GYFER ADDYSG GREFYDDOL (SACRE)

Cofnodion cyfarfod Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (SACRE) a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Tŷ Russell, Ffordd Churton, Y Rhyl dydd Llun, 2 Chwefror 2009 am 10.00a.m.

PRESENNOL

Yn cynrychioli Cyngor Sir Dinbych

Cynghorwyr J.A. Davies, G.C. Evans, G.A. Jones ac M.M. Jones

Yn cynrychioli Cyd Bwyllgor Trafod Athrawon Sir Ddinbych

M. Bradshaw ac M.B. Lloyd

Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol

Y Parchedig. B.H. Jones (Cadeirydd), B.Wyn Evans, H. Ellis, M. Hatch, S. Harris ac E. Wright.

Aelodau Cyfetholedig

T.Ap Sion (yn lle'r Parchedig Athro L.J. Francis)

HEFYD YN BRESENNOL

G. Craigen (Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol); G.W. Jones (Pennaeth Gwella Ysgolion) a Swyddog Gweinyddol (W.J. Roberts) ynghyd ag A. Matthias, Ysgol Emmanuel.

YMDDIHEURIADAU

Cynghorwyr C. Hughes a J. Yorke; R. Hayward, I. Barros-Curtis, L. Linekar, M. Ludenbach ac M. Mehmet (Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim: Dysgu gydol Oes)

CYFNOD TAWEL

Dechreuodd y cyfarfod gydag ychydig funudau o dawelwch.

1 MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw fater bryd i'w ystyried gan y Pwyllgor.

2 COFNODION

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (SACRE) a gynhaliwyd dydd Mercher, 8 Hydref 2008 (dosbarthwyd ynghynt).

Cywirdeb –

Tudalen 1 – Ymddiheuriadau – i gynnwys enw Miss H. Ellis.

Tudalen 6 – Eitem rhif 7 – Cymdeithas SACREs Cymru – dylid cywiro sillafiad enw Mrs. M.B. Lloyd yn y trydydd paragraff o 'Loydd' i 'Lloyd'.

Materion yn Codi –

Tudalen 2 - Adroddiad ar Asesiad Addysg Grefyddol - cyfeiriodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol at y penderfyniad i gyflwyno proses ar gyfer asesu Addysg Grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 3 gan ychwanegu ei bod yn galonogol bod Addysg Grefyddol yn cael ei drin yn yr un modd â'r holl bynciau eraill yn y cwricwlwm.

Tudalen 4 - Cyflwyniad: Rhwydwaith Dysgu 14-19 Sir Ddinbych - mewn ymateb i sylw Mrs. M.B. Lloyd nad oedd unrhyw un wedi cysylltu â hi am ei henwebiad i gynrychioli ar y Grŵp Strategaeth 14-19, dywedodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol y byddai'n edrych i mewn i'r mater.

Tudalen 5 - Eitem rhif 6 - Dadansoddi Adroddiadau Arolwg Estyn ar Ysgolion- dywedodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol wrth yr aelodau nad oedd Addysg Grefyddol wedi'i arolygu mewn tair o'r pum ysgol oedd wedi'u harolygu. Yna, dywedodd wrth yr aelodau am y tri math o arolwg y gellid ei gynnal.

***PENDERFYNWYD,** o ystyried yr uchod, derbyn cofnodion y cyfarfod SACRE a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2008 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.*

3 CYFLWYNIAD – YSGOL C.P. EMMANUEL

Cyflwynodd y Cadeirydd a chroesawodd i'r cyfarfod Mrs. Alison Matthias, Dirprwy Bennaeth Ysgol C.P. Emmanuel oedd yn bresennol i roi cyflwyniad ar ddarpariaeth Addysg Grefyddol a chyd-addoli yn yr ysgol.

Diolchodd Mrs. Matthias i aelodau'r Pwyllgor am eu gwahoddiad i'r cyfarfod. Dywedodd fod Ysgol C.P. Emmanuel wedi'i lleoli yn un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru gyfan a bod yr ysgol wedi'i chymeradwyo'n barod am y modd yr oedd wedi meithrin y plant hynny oedd yn mynychu'r ysgol o deuluoedd difreintiedig fel hyn.

Gyda help cyflwyniad PowerPoint, rhoddodd Mrs. Matthias adroddiad brwdfrydig a difyr o'r modd roedd Addysg Grefyddol a chyd-addoli'n cael eu darparu yn yr ysgol. Eglurodd Mrs. Matthias i'r aelodau y Cynlluniau Tymor Hir a Chanolig ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol yn yr ysgol a dywedodd bod llawer o'r cynnwys yn y maes llafur y cytunwyd arno'n cydweddu â'i chynllun gwaith. Ethos yr ysgol oedd datblygu gallu'r plant i feddwl, i gynllunio ac i adlewyrchu ar yr hyn maen nhw wedi'i wneud. Dywedodd wrth yr aelodau fod cyflwyno'r defnydd o gofnodi llais digidol wedi profi'n hynod o boblogaidd ymhlith y disgyblion fel modd o gofnodi eu profiadau yn hytrach nag ysgrifennu amdany'n nhw!

Cynhaliwyd cyd-addoliad ysgol gyfan unwaith y mis gyda gwasanaethau cyfnodau allweddol a dosbarth yn cael eu cynnal ddwywaith yr wythnos. Eglurodd Mrs. Matthias i'r aelodau'r Cynllun Cyd-addoli yr oedd wedi'i ddyfeisio a dywedodd wrthyn nhw am y themâu a ddewisodd ar gyfer pob un o'r wythnosau o fewn tymhorau'r ysgol.

Yn olaf, cyfeiriodd Mrs. Matthias at y ddogfen roedd wedi'i pharatoi, lle'r oedd wedi awgrymu pynciau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a CA2 er mwyn cynorthwyo athrawon yn yr ysgol wrth gyflwyno addoliad. Ychwanegodd nad oedd cynnwys y ddogfen yn rhagnodol - ond yn arweiniad er mwyn bod o help.

Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd Mrs. Matthias wrth y Pwyllgor am y nifer o gredoau yr oedden nhw'n paratoi ar eu cyfer yn ysgol C.P. Emmanuel. Roedd y mwyafrif ohonyn nhw'n cymryd rhan yn Addysg Grefyddol yr ysgol.

I gloi, llongyfarchwyd Mrs. Matthias am ei Chynllun Cyd-addoli a gofynnwyd iddi a ellid rhannu ei harfer da gydag ysgolion cynradd eraill. Dywedodd y Pennaeth Gwella Ysgolion wrth yr aelodau ei fod yn sefydlu proses o gael cyfarfodydd clwstwr gyda phenaethiaid yn gylchynol fel modd o hybu cyfleoedd hyfforddiant gwasanaeth. Awgrymodd y gallai'r Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol gysylltu â'r Swyddog Gwella Ysgolion Uwchradd - Cynradd er mwyn cynnwys eitem ar yr agenda ar gyfer y flwyddyn i ddod er mwyn rhannu'r arfer da a fabwysiadwyd gan Ysgol C.P. Emmanuel.

Yna, diolchodd y Cadeirydd ar ran yr aelodau i Mrs. Matthias am gyflwyniad rhagorol, hynod ddiddorol gan ychwanegu ei bod yn braf nodi bod llawer o gynnwys y maes llafur y cytunwyd arno yn cydweddu â chynllun gwaith yr ysgol.

PENDERFYNWYD –

- (a) *derbyn cyflwyniad Mrs. Alison Matthias, ar ran Ysgol C.P. Emmanuel, Y Rhyl; a*
- (b) *bod llythyr diolch yn cael ei anfon at Bennaeth yr ysgol yn cydnabod cyflwyniad Mrs Alison Matthias ac yn gofyn am ganiatâd i rannu syniad Mrs. Matthias am gyd-addoli*

4 CANLYNIADAU ARHOLIADAU 2008

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol dablau (dosbarthwyd ynghynt) yn rhoi manylion canlyniadau arholiadau ysgolion mewn Addysg Grefyddol TGAU a Lefel A yn 2008 o gymharu â 2007 i'r aelodau eu hadolygu.

Aeth yr Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol ymlaen i egluro'r canlyniadau i'r aelodau'n fanwl a dywedodd ar lafar am y cymariaethau rhwng canlyniadau arholiadau 2008 a 2007. Cyfeiriodd yn benodol at y pwyntiau canlynol:-

- Holl Ganlyniadau TGAU – Astudiaethau Crefyddol 2008 – roedd 23 ymgeisydd yn llai na'r flwyddyn flaenorol; yn gyffredinol gwelwyd gwelliant ar y

flwyddyn flaenorol gyda 77.1% yn ennill A* - C oedd yn 5.1% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol

- Canlyniadau TGAU Bechgyn - Astudiaethau Crefyddol 2008 - roedd 36 yn llai o ymgeiswyr na'r flwyddyn flaenorol gyda 77.1% yn ennill A* - C, o gymharu â 66.7% yn 2007. Roedd y ffigwr hwn yn 11.4% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol
- Canlyniadau TGAU Merched – Astudiaethau Crefyddol 2008 – roedd 12 ymgeisydd yn fwy gyda 77.0% yn ennill A* - C oedd yn 1.2% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol
- Holl Ganlyniadau TGAU - Addysg Grefyddol (Cwrs Byr) 2008 - roedd 10 ymgeisydd yn llai gyda 43.3% yn ennill A* - C oedd yn gynnydd o 0.3% ar y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, roedd yn 16.4% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol
- Canlyniadau TGAU Bechgyn - Addysg Grefyddol (Cwrs Byr) 2008 - roedd 6 ymgeisydd yn llai gyda 29.4% yn ennill A* - C - gostyngiad o 1.7% ar y flwyddyn flaenorol. Roedd hefyd yn 24% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol yn 2008
- Canlyniadau TGAU Merched – Addysg Grefyddol (Cwrs Byr) 2008 – roedd 4 yn llai o ymgeiswyr gyda 52.5% yn ennill A* - C – cynnydd o 1.4% ar y flwyddyn flaenorol. Eto, roedd hyn yn 12.9% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol
- Holl Ganlyniadau Lefel TAU Uwch – Astudiaethau Crefyddol 2008 – roedd 5 ymgeisydd yn fwy gyda 77.8% yn ennill A - C – cynnydd o 8.8% ar y flwyddyn flaenorol a 2.1% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol
- Lefel TAU Uwch Bechgyn – Astudiaethau Crefyddol 2008 – roedd 3 ymgeisydd yn llai gyda 58.3% yn ennill A – C – gostyngiad o 1.7% ar y flwyddyn flaenorol a 9% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol
- Lefel TAU Uwch Merched– Astudiaethau Crefyddol 2008 – roedd 43 o ymgeiswyr gyda 82.4% yn ennill A – C – cynnydd o 10.3% ar y flwyddyn flaenorol a 4.4% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Dywedodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol wrth yr aelodau mai canlyniadau'r cwrs byr oedd y mwyaf siomedig. Yn ystod ei ymweliad ag Ysgol Uwchradd Prestatyn, roedd wedi sicrhau bod y cwrs byr yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y plant gallu is: roedd pob plentyn wedi dilyn y cwrs llawn. Ychwanegodd, petai'r arfer yn cael ei fabwysiadu mewn ysgolion uwchradd eraill, mai hynny efallai oedd y rheswm pam bod y canlyniadau wedi bod mor isel.

Dywedodd y Swyddog Gwella Ysgolion mai'r argraff a gafodd oedd bod adran Addysg Grefyddol gref yn Ysgol Uwchradd Prestatyn ac na fyddai wedi disgwyl gostyngiad fel hyn yn yr ysgol.

Mewn ymateb i gwestiwn y Swyddog Gwella Ysgolion a oedd dadansoddiad o ffactorau mewnol wedi'i gynnal er mwyn sicrhau a oedd hyn wedi cyfrannu at ganlyniadau gwael Prestatyn, dywedodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol fod yr ysgol wedi cael rhai problemau staffio ac nad oedd dau athro wedi gallu cynnig yr ansawdd addysgu cywir ar gyfer y cwrs llawn ond bod yr ysgol ar hyn o bryd yn delio â hyn. Trefnwyd hyfforddiant mewn swydd i'r ddau athro.

Dywedodd y Swyddog Gwella Ysgolion fod gan yr awdurdod lleol bryderon hefyd am Ysgol Uwchradd Dinbych - roedd rhai o'r rhain yn ymwneud â'r modd yr oedd rhai pynciau wedi'u hamserlenni yn CA4. Roedd yn amau a oedd digon o amser wedi'i roi ar gyfer pynciau nad oedd yn rhai craidd ar y cwricwlwm.

Wrth ymateb i gwestiwn, dywedodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol y gallai gweithredu'r agenda 14-19 fod wedi cael effaith ar yr ysgol er na ddylai fod oherwydd bod Addysg Grefyddol yn bwnc statudol. Gwelwyd rhywfaint o newid yn narpariaeth y cwricwlwm ac yn Ninbych, roedd gan yr ysgol gylch o bynciau agenda - Addysg Grefyddol ac ABCh - a bod cyfnod pan nad oedd gan yr ysgol Addysg Grefyddol ar gyfer CA4. Ychwanegodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol mai'r bwriad oedd y byddai rhywfaint o'r maes llafur yn cael ei gynnig I Flwyddyn 9 I wneud iawn am hyn.

Eglurodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol wedyn gynnwys y cwrs byr. Teimlai'r Pennaeth Gwella Ysgolion nad oedd nifer o ysgolion yr awdurdod lleol yn cofrestru disgyblion ar gyfer y cyrsiau hynny lle nad oedden nhw'n hybu Addysg Grefyddol statudol. Cytunodd yr aelodau y dylid anfon llythyr oddi wrth SACRE i'r holl ysgolion uwchradd yn y Sir i'w hannog i gofrestru disgyblion ar gyfer y cwrs byr.

Wrth ystyried y canlyniadau yn ysgol y Bendigaid Edward Jones, nododd yr aelodau er bod y canlyniadau wedi gwella'n ddifawr yn 2007, nad oedd canlyniadau Addysg Grefyddol wedi dal i fyny a hyn. O dan yr amgylchiadau, roedden nhw'n cytuno y dylid gofyn i Awdurdod yr Esgobaeth pa gamau roedden nhw'n eu cymryd i wella canlyniadau.

Yna, trafododd yr aelodau'r posibilrwydd o ysgolion yn cydweithio ar astudiaethau crefyddol lefel A. Dywedodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol ei bod yn anodd i ddisgyblion yr amrywiol ysgolion gydweithio oherwydd yr opsiynau amrywiol o fewn y cynllun lefel A a gan fod y mwyafrif o'r ysgolion yn dilyn gwahanol opsiynau. Nid oedd unrhyw gyffredinedd clir rhwng yr ysgolion.

Atgoffodd y Swyddog Gwella Ysgolion yr aelodau fod perfformiad disgyblion ar lefel AS yn rhoi rhywfaint o arwydd o sut gallen nhw berfformio yn lefel A. O ystyried canlyniadau AS yn Ysgol Uwchradd Prestatyn yr haf diwethaf, dywedodd y Swyddog Gwella Ysgolion ei fod wedi bod yn bryderus bod gormod o ddisgyblion wedi cael caniatâd i fynd ymlaen at ran lefel A y cwrs pan oedden nhw wedi methu ar lefel AS. Teimlai y byddai wedi bod yn well i'r myfyrwyr hynny fod wedi cael eu rhoi ar gyrsiau eraill lle bydden nhw wedi gallu llwyddo. Ychwanegodd y Swyddog Gwella Ysgolion y gallai hynny fod yn broblem mewn rhai o'r ysgolion eraill hefyd.

Er bod yr Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol wedi atgoffa aelodau bod penderfyniad wedi'i wneud rhai blynyddoedd yn ôl na fyddai SACRE yn edrych ar

ganlyniadau AS, gofynnodd aelodau a ellid creu crynodeb o ganlyniadau lefel AS i'r Pwyllgor yn y dyfodol. Cytunodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol I ymgymryd â'r dasg hon.

Cytunodd yr Aelodau wedyn y bydden nhw'n dymuno gwahodd y penaethiaid hynny lle nad oedd y canlyniadau Astudiaethau Crefyddol mor dderbyniol ag yr oedden nhw wedi'u ddymuno, i gyfarfod SACRE er mwyn i'r aelodau fod yn ymwybodol o'r strategaethau y byddai'r ysgolion hynny'n eu mabwysiadu er mwyn delio â phroblemau tanberfformio. Roedden nhw hefyd yn cytuno y dylid gwahodd tri phennaeth I fynychu cyfarfod o SACRE ar wahanol adegau i'w gilydd.

I gloi, diolchodd y Cadeirydd i'r Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol am y gwaith roedd wedi'i wneud i gydlynu canlyniadau arholiadau gan ychwanegu ei bod yn galonogol i weld bod rhywfaint o welliant wedi bod.

PENDERFYNWYD—

- (a) *derbyn yr adroddiad; a*
- (b) *lle nad oedd canlyniadau Astudiaethau Crefyddol mewn rhai o'r ysgolion yn yr awdurdod lleol mor dderbyniol ag y dymunen nhw iddyn nhw fod, bod camau'n cael eu cymryd i wahodd tri o'r penaethiaid perthnasol ar y tro i gyfarfod SACRE er mwyn i aelodau fod yn ymwybodol o'r strategaethau roedd yr ysgolion hynny'n mynd i'w mabwysiadu er mwyn delio â phroblemau tan berfformio. Cytunwyd hefyd y dylid gwahodd y tri phennaeth i fynychu ar wahanol adegau yn yr un cyfarfod.*
- (c) *bod llythyr yn cael ei anfon oddi wrth SACRE at yr holl ysgolion uwchradd yn y Sir i'w hannog i gofrestru disgyblion ar gyfer y cwrs byr Addysg Grefyddol;*
- (ch) *y dylid gofyn i Awdurdod yr Esgobaeth pa gamau roedden nhw'n eu cymryd i wella canlyniadau Addysg Grefyddol;*
- (d) *bod yr Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol yn llunio crynodeb o ganlyniadau lefel AS Addysg Grefyddol i'r Pwyllgor ei ystyried yn y dyfodol.*

5 DADANSODDIAD O ADRODDIADAU AROLWG ESTYN

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol adroddiad (dosbarthwyd ynghynt) yn dadansoddi canlyniadau arolygon diweddar dwy ysgol ar 29 Medi 2008 a 13 Hydref 2008 o'u darpariaeth o Ddatblygiad Ysbrydol, Moesegol, Cymdeithasol a Diwylliannol ((SMSC) ac Addysg Grefyddol lle'r oedd yn rhan o'r arolwg. Eglurodd fod arolygon wedi'u cynnal hefyd mewn ysgolion eraill. Fodd bynnag, dim ond adroddiadau am Ysgol Gynradd Pentrecelyn ac Ysgol Gynradd Heulfre, Dinbych oedd yn barod i'w hargraffu. Roedd hanes byr pob ysgol wedi'i ymgorffori i mewn i'r adroddiad.

Roedd yr Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol yn rhoi crynodeb byr o'r darganfyddiadau'n ymwneud â phob ysgol gan egluro a dadansoddi materion penodol mewn ymateb i gwestiynau aelodau. Cadarnhaodd nad oedd Addysg

Grefyddol wedi'i arolygu gan Estyn yn un o'r ddwy ysgol o dan y trefniadau arolygu presennol. Ychwanegodd ei bod yn ddymunol nodi bod 40 sylw cadarnhaol wedi'u cyflwyno ar gyfer SMSC rhwng y ddwy ysgol gyda 4 sylw negyddol yn unig. Roedd y rheiny wedi cyfeirio at faterion yr oedd yr ysgolion yn ymwybodol ohonyn nhw'n barod ac yn delio â nhw.

PENDERFYNWYD –

- (a) *derbyn a nodi'r adroddiad;*
- (b) *bod yr Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol yn ysgrifennu at yr ysgolion a gafodd eu harolygu i'w llongyfarch ar y nodweddion da a nodwyd a chynnig gwasanaethau'r Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol neu swyddogion eraill yr AALI i ddelio ag unrhyw ddiffygion neu broblemau allweddol; a*
- (c) *gofyn i'r Awdurdod Addysg Lleol ddosbarthu'r llythyron uchod.*

6 CANOLFAN Y SANTES FAIR YN LLYFRGELL SANT DEINIOL

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol lythyr oddi wrth Gyfarwyddwr Canolfan y Santes Fair, Llyfrgell Sant Deiniol, Penarlâg (dosbarthwyd ynghynt) oedd yn hysbysu'r aelodau am y newidiadau yng Nghanolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru, Bangor, datblygiad Canolfan newydd yn Llyfrgell Sant Deiniol, Penarlâg a'r effaith y gall hyn ei gael ar waith SACRE.

Atgoffodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol yr aelodau fod Canolfan Genedlaethol Cymru wedi'i sefydlu ym Mangor ym 1979 fel rhan o Adran Addysg Prifysgol Cymru. Pan sefydlwyd SACRE Sir Ddinbych, roedd yr aelodaeth wedi cynnwys aelod cyfetholedig o Ganolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru; ar hyn o bryd y Parchedig Athro L.J. Francis yw hwn.

Yna, gofynnodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol am gymeradwyaeth yr aelodau i drosglwyddo aelodaeth SACRE o Ganolfan Genedlaethol Cymru i Ganolfan y Santes Fair ym Mhenarlâg. Dywedodd fod y Parchedig Athro L.J. Francis a Tania Ap Sion, Cyfarwyddwr ar hyn o bryd, yn aelodau o Ganolfan y Santes Fair. Cyfeiriodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd at yr angen am i aelodau ystyried gwerth Newyddion Addysg Grefyddol yn y dyfodol, yn eu cyfarfod nesaf.

Amlinellodd Tania Ap Sion, Cyfarwyddwr Canolfan y Santes Fair, wedyn y datblygiadau sy'n digwydd ar hyn o bryd yng Nghanolfan y Santes Fair a soniodd fod gwybodaeth bellach ar gael hefyd ar wefan y Ganolfan. Ychwanegodd fod Llyfrgell Sant Deiniol, yn ei blwyddyn Ganmlwyddiant eleni, yn gweithio ar godi arian i sefydlu ystafell adnoddau benodedig.

Yna, ystyriodd yr aelodau a ddylai Cyfarwyddwr Canolfan y Santes Fair fod yn aelod o SACRE Sir Ddinbych.

PENDERFYNWYD –

- (a) *derbyn eglurhad ar lafar yr Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol am y newidiadau yng Nghanolfan Genedlaethol Cymru a datblygiad y Ganolfan newydd yn Sant Deiniol;*
- (b) *derbyn y llythyr o Ganolfan y Santes Fair yn Sant Deiniol, dyddiedig 12 Ionawr 2009;*
- (c) *cytuno ar drosglwyddo aelodaeth SACRE o'r Athro L.J. Francis (gynt o'r WNCRE) i Tania ap Sion o Ganolfan y Santes Fair;*
- (ch) *anfon copi o'r llythyr o Ganolfan y Santes Fair yn Sant Deiniol at bob un o ysgolion yr awdurdod lleol; a*
- (d) *bod gwerthusiad o farn yr aelodau ar Newyddion Addysg Grefyddol yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf SACRE Sir Ddinbych.*

7 CYMDEITHAS SACRES CYMRU

7(a) Cofnodion WASACRE – 7 Tachwedd 2008

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol ddrafft o gofnodion o Gymdeithas SACREs Cymru (WASACRE) a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Cwmbran ar 7 Tachwedd 2008 (dosbarthwyd ynghynt) a dywedodd wrth yr aelodau fod Tania Ap Sion, Cyfarwyddwraig Canolfan y Santes Fair erbyn hyn yn ysgrifennydd WASACRE. Atgoffodd yr aelodau fod dau le gwag bob blwyddyn ar y Pwyllgor Gweithredol a bod pob SACRE'n cael gwahoddiad i enwebu aelod ar gyfer un o'r lleoedd gwag hyn - mae'n rhaid cyflwyno'r enw hwn erbyn 1 Mawrth 2009. Atgoffwyd y Pwyllgor y gallai aelodau sy'n gadael y Pwyllgor Gweithredol gael eu hailethol os oedd y Cynghorau'n dymuno eu henwebu. Roedd yr Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol ar hyn o bryd yn aelod o WASACRE fel cyn Gadeirydd a bod ganddo flwyddyn arall i weithredu.

Yna, cynigiodd Mrs. M.B. Lloyd ac eiliodd y Cynghorydd G.C. Evans, y dylai'r Cadeirydd, y Parchedig B.H. Jones, gael ei enwebu. Cytunodd yr holl aelodau.

Atgoffodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol yr aelodau hefyd fod cyfarfod yr haf o WASACRE i'w gynnal yn Sir Ddinbych eleni ar 24 Mehefin yng Ngwesty'r Wild Pheasant, Llangollen. Ychwanegodd fod gwahoddiad i'r SACRE oedd yn lletya fynychu i gyd ac anogodd aelodau i wneud pob ymdrech i fynychu.

Yna, hysbysodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol yr aelodau fod y cadeirydd, Mrs. M.B. Lloyd ac ef wedi mynychu'r cyfarfod WASACRE ar 7 Tachwedd 2008. Amlinellodd y cyflwyniad a gafwyd gan Laura Burrige o Goleg Cymuned Tref Mihangel, Caerdydd o'r enw 'Adeiladu Pŵer Dysgu mewn Addysg Grefyddol: gwella sgiliau cydweithio a gwaith grŵp' ynghyd â'r cyflwyniad a gafwyd gan Denize Morris, Swyddog Pwnc dros Addysg Grefyddol yn DCELLS o'r enw 'Enghreifftio'r Fframwaith Addysg Grefyddol'. Roedd yr ail gyflwyniad wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am gynnydd y deunydd enghreifftio ar gyfer y fframwaith Addysg Grefyddol - fframwaith oedd wedi'i fabwysiadu gan y mwyafrif o'r awdurdodau. Cyfeiriodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol at y

crynodeb a gwerthusiad y gynhadledd genedlaethol lwyddiannus a gynhaliwyd ar Addysg Grefyddol 16+. Ychwanegodd ei fod wedi bod yn ddigwyddiad hynod werthfawr.

PENDERFYNWYD –

- (a) *derbyn cofnodion WASACRE a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2008; ac*
- (b) *y dylid cyflwyno enw'r Parchedig B.H. Jones, fel enwebiad SACRE Sir Ddinbych ar gyfer un o'r lleoedd gwag ar Bwyllgor Gweithredol WASACRE.*

7(b) Adroddiad ar gyfarfod rhwng WASACRE a'r Gweinidog, Jane Hutt, ar 25 Tachwedd 2008

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol adroddiad (dosbarthwyd ynghynt) oedd yn rhoi crynodeb i'r aelodau o ymatebion y Gweinidog i nifer o gwestiynau a gyflwynwyd iddi gan WASACRE. Ychwanegodd fod y Gweinidog Addysg wedi cyfeirio at drafodaeth gyda'r Gweinidog dros Gydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol oedd yn wreiddiol i'w chynnal ar 9 Chwefror ond oedd wedi'i gohirio i 10 Mawrth. Pwrpas y cyfarfod hwnnw oedd ceisio rhoi cyfranogiad a chyfraniad Addysg Grefyddol i gydlyniant cymuned, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol yn gadarn ar y map ac iddo gael ei ariannu.

***PENDERFYNWYD** derbyn adroddiad y cyfarfod rhwng WASACRE a'r Gweinidog dros Addysg a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2008.*

I gloi, atgoffodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol yr aelodau y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 8 Mehefin 2009 ym Mhrestatyn. Hefyd, atgoffodd hwy y byddai cyfarfod haf WASACRE yn cael ei gynnal yn Sir Ddinbych ar 24 Mehefin 2009. Mewn ymateb i gais yr Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol,-

***PENDERFYNWYD**– enwebu'r Cynghorydd J.A. Davies fel cynrychiolydd swyddogol SACRE Sir Ddinbych i fynychu cyfarfod WASACRE ar 24 Mehefin 2009.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.10p.m.

Cyngor Sir Dinbych
Cyngor Cynghori Sefydlog ar Addysg Grefyddol
(SACRE)

| | | |
|---------------------|----------|-----------------------|
| Dyddiad y Cyfarfod: | | 8 Mehefin 2009 |
| Eitem Agenda: | 3 | Manylion yr Adroddiad |

Cefndir i'r Adroddiad:

Mae dyletswydd statudol ar SACRE i fonitro darpariaeth Addysg Grefyddol (AG) ac addoli ar y cyd yn yr ysgolion a bu'n arferiad sefydlog i dderbyn a dadansoddi adroddiadau Arolygon Estyn ym mhob cyfarfod.

Pwrpas yr Adroddiad

Hysbysu aelodau am ddeilliannau Adroddiadau Arolygon Estyn diweddar mewn ysgolion.

Argymhellion:

- Derbyn yr adroddiad
- Anfon llythyr at bob un ysgol yn eu hysbysu bod eu Hadroddiadau Arolwg wedi'u hystyried a'u llongyfarch am y nodweddion da a nodwyd a'u hatgoffa am wasanaethau'r Arolygydd/Cynghorydd AG a'r Swyddogion Gwella Ysgolion mewn unrhyw faes datblygu neu faterion pwysig sydd angen delio â nhw.
- Gofyn i'r AALI ddsbarthu'r llythyrau i'r ysgolion dan sylw.

SYLWADAU CYD-DESTUN: ADRODDIADAU AROLYGIAD
CYNGOR YMGYNGHOROL SAFONOL ADDYSG GREFYDDOL / SACRE
SIR DDINBYCH

Mehefin 8fed 2009

5 Ysgol

| Ysgol | Dyddiadau | Arolygwr Cofrestredig | Arolygiad SMSC Cwest. Allweddol 3 | Arolygwr AG |
|--|-------------------|----------------------------------|--|------------------------------------|
| Ysgol RW Borthyn | 19/02/2009 | Stephen Dennett | Meiriol Meredith- Jones | Meiriol Meredith- Jones |
| <p><i>Lleolir Ysgol RW Borthyn yn nhref Rhuthun. Daw'r mwyafrif o'r disgyblion o'r ardal leol, sy'n weddol lewyrchus. Mae 12% o'r disgyblion yn gymwys am ginio ysgol am ddim, sydd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn ddiweddar, gwelwyd cynnydd mewn nifer o ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig sydd ddim yn siarad Saesneg pan maent yn cyrraedd yr ysgol. Rhestrwyd 29% o ddisgyblion yr ysgol fel plant sydd angen anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gydag un plentyn ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae 8% o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY) ac mae 22% o leiafrifoedd ethnig. Nid oes disgyblion yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Yn ystod yr arolygiad, roedd 109 o blant ar rôl yr ysgol gan gynnwys 8 o blant meithrin rhan amser. Mae'r ysgol wedi ennill Marc Ansawdd Sgiliau Sylfaenol dair gwaith.</i></p> | | | | |
| Ysgol Bro Famau | 12/05/2008 | Andrew Clark | Nick Williams | Rhiannon Harris |
| <p><i>Lleolir Ysgol Bro Famau mewn ardal o harddwch naturiol eithriadol yn ardal Moel Famau. Mae dwy ysgol rhyw dair milltir a hanner oddi wrth ei gilydd. Mae 94 o ddisgyblion ar rôl y ddwy ysgol sy'n cynnwys 8 o blant meithrin rhan amser ar y ddau safle. Mae 1% o'r plant yn gymwys am ginio ysgol am ddim. Saesneg yw iaith gyntaf y mwyafrif helaeth o'r plant. Rhestrwyd 15% o ddisgyblion yr ysgol fel plant sydd angen anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gan gynnwys 1% ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA). Bydd y plant yn gweithio yn y ddau safle er mwyn manteisio ar y cyfleusterau fel Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebiad (TGaCh) a chyfleusterau neuadd. Mae hyn yn caniatáu i ddisgyblion weithio gyda chyd-ddisgyblion o'r un oedran hefyd. Cludir hwy gyda bws mini. Mae gwaith adeiladu sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi adnewyddu ac uwchraddio'r ddau safle gan gynnwys llyfrgell newydd a manau TGaCh ynghyd â gwelliannau i'r cyfleusterau y tu allan. Enillodd yr ysgol y Marc Ansawdd Sgiliau Sylfaenol am yr ail waith yn 2007. Mae'r ysgol yn cynnal clwb brechwast, clwb ar ôl ysgol, grwpiau Mamau a Phlant a chyfleoedd addysgol i rieni gan gynnwys Cymraeg fel ail iaith.</i></p> | | | | |
| Ysgol Brynhyfryd | 03/11/2008 | William G Thomas | David Hughes | Ni arolygwyd |
| <p><i>Ysgol ddwyieithog naturiol yw Ysgol Brynhyfryd, lle mae disgyblion cymysg, oedran 11-18. Ysgol gymuned yw hi, ac fe'i defnyddir yn helaeth gan amrywiol sefydliadau. Ar hyn o bryd, mae 1,224 o ddisgyblion ar y llyfrau, gyda 203 yn y chweched dosbarth, o'i gymharu â 1,230 yn ystod yr arolygiad diwethaf, pryd roedd 240 yn y chweched dosbarth. Mae dau neu dri dosbarth ym mhob blwyddyn â studio eu cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae un grŵp ar gyfer ymestyn dysgwyr Cymraeg a grwpiau eraill ar gyfer dysgwyr Cymraeg fel ail iaith. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal ddaearyddol eang gyda 50% o'r disgyblion yn dod o dref Rhuthun ei hun a'r gweddill o'r ardal wledig sy'n amgylchynu'r dref. Mae 5.7% yn derbyn cinio ysgol am ddim, sydd yn llawer is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae 21 disgybl gyda datganiad o anghenion arbennig (AAA) a rhestrir 133 o ddisgyblion eraill fel rhai sydd angen cefnogaeth ychwanegol. Datgymhwysir 11 o ddisgyblion o'r Cwricwlwm Cenedlaethol (CC). Daw oddeutu 74% o ddisgyblion o gartrefi lle mae Saesneg yn brif iaith y cartref, gyda 25% yn dod o gartrefi lle y siaredir Cymraeg. Mae 33% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf neu safon gyfatebol oddi mewn i'r ysgol. Bydd 4 o'r disgyblion yn derbyn cefnogaeth mewn Saesneg fel ail iaith. Mae'r Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) yn cynnwys pennaeth, dau ddirprwy bennaeth a thri is-bennaeth.</i></p> | | | | |
| Ysgol Uwchradd | 17/11/2008 | Peter Harris | Delyth Williams | Heddwyn Evans |

| | | | | |
|--|-------------------|-------------------|---|---------------------|
| Y Rhyl | | | | |
| <p><i>Mae Ysgol Uwchradd Y Rhyl yn ysgol gyfun gymysg i ddisgyblion oedran 11-18, ac fe'i lleoli yn nhref glan y môr Y Rhyl. Mae 1,024 o ddisgyblion ar y llyfrau, gyda 77 ohonynt yn y chweched dosbarth. Pan arolygwyd yr ysgol ddiwethaf, roedd 1,186 ar y llyfrau, gyda 103 yn y chweched dosbarth. Mae'r ysgol ar safle eang sy'n cynnwys canolfan hamdden. Mae'r ysgol mewn ardal sydd rhywfaint dan anfantais yn economaidd. Denir nifer o deuluoedd heb gartrefi parhau i'r dref. Mae 17% o'r disgyblion yn gymwys i gael cinio ysgol am ddim. Yn ôl dangosyddion amddifadiad lluosog y Cynulliad, mae un o ddalgylchoedd yr ysgol yn un o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Er, fel cyferbyniad, mae ardaloedd lle mae cyfoeth o'i gymharu ag ychydig o ddiweithdra. Lleiafswm bychan o'r disgyblion sy'n dod o gefndir ethnig. Daw'r mwyafrif o gartrefi lle mae'r Saesneg yn iaith gyntaf.</i></p> | | | | |
| Ysgol Mair | 26/01/2009 | Jim Hewitt | Christopher Dolby a Justine Barlow | Ni arolygwyd |
| <p><i>Ysgol gymorthedig wirfoddol gynradd Gatholig yw Ysgol Mair. Daw'r mwyafrif o'r disgyblion o gartrefi ffydd Gatholig, er y daw 17% o enwadau Cristionogol a 15% o gartrefi Anghristionogol. Mae canran sylweddol o'r disgyblion (17%) yn byw yn ne-orllewin Y Rhyl sy'n cael ei ddisgrifio fel un o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru - ardal 'Cymuned yn Gyntaf'. Mae 328 o ddisgyblion ar y llyfrau, gyda 12 dosbarth gallu cymysg trwy'r ysgol i ddisgyblion Blwyddyn Derbyn i Flwyddyn 6; mae dau o'r rhain yn ddosbarthiadau oedrannau cymysg. Yn ogystal, mae meithrinfa sy'n cynnal sesiynau rhan amser i 38 o blant. Rhestrir 77 (24%) o blant yn yr ysgol gydag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) sy'n llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol; allan o'r cyfanswm yma, mae gan 8 ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA). Mae 25% yn gymwys i ginio ysgol am ddim sy'n llawer uwch na'r cyfartaledd lleol a'r cyfartaledd cenedlaethol. Eithriwyd 5 disgybl yn y 12 mis diwethaf. Saesneg yw iaith y cartref i'r mwyafrif o'r disgyblion (83%). Mae 20% yn derbyn cefnogaeth gyda Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY); daw'r disgyblion hyn o deuluoedd gyda tharddiad ethnig cymysg neu deuluoedd heb gefndir Prydeinig. Nid oes disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg fel iaith gyntaf. Yn 2008, enillodd yr ysgol Wobr Ansawdd Sgiliau Sylfaenol Marc 2, Gwobr Ysgolion Eco, Gwobr Ysgolion Iachus Cam 1 a Gwobr Pencampwyr Ysgolion Gogledd Cymru am Gysylltiadau Cymunedol wrth ddatblygu gardd natur yr ysgol.</i></p> | | | | |

**Dadansoddiad o Adroddiadau Arolygiad
Cyngor Ymgynghorol Safonol Addysg Grefyddol / Sacre**

Sir Ddinbych
Mehefin 8fed 2009

**DATBLYGIAD YSBRYDOL, MOESOL, CYMDEITHASOL A
DIWYLLIANNOL**

Materion Allweddol:

3 Ysgol

Gwella sgiliau allweddol y disgyblion lle mae angen, sef ysgrifennu, agweddau o sgwrsio a dwyieithrwydd (Ysgol RW Borthyn)*

Datblygu sgiliau ac ymwybyddiaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang gan gynnwys sgiliau entrepreneuriaidd. (Ysgol Bro Famau)

Sicrhau fod pob angen statudol sy'n gysylltiedig ag addysg grefyddol a gweithredoedd addoli cyfunol yn cael eu cyfarfod. (Ysgol Brynhyfryd)

SYLWADAU CADARNHAOL

Gweithgareddau / Cyfleoedd Allgyrsiol

5 Ysgol

- Mae'r ysgol yn trefnu sawl gweithgaredd diddorol i ymestyn profiadau disgyblion. Trefnir nifer o glybiau, ymweliadau, gan gynnwys teithiau i Ffrainc, Pentrellyncymer a Glan Llyn, a gwahoddir gwesteion i gyfoethogi datblygiad y disgyblion. Mae'r ysgol ynghlwm gyda nifer o weithgareddau'r Urdd. *(Ysgol RW Borthyn)*
- Paratoir ystod dda o weithgareddau allgyrsiol. Bydd disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a bydd timau chwaraeon yn cystadlu yn lleol ac yn genedlaethol, fel cystadleuthau'r Urdd. Bydd disgyblion yn cymryd rhan mewn dramâu a pherfformiadau. Bydd y disgyblion hŷn yn elwa o ymweliadau preswyl lle y cymerir rhan mewn gweithgareddau awyr agored ym Mhentrellyncymer a gweithgareddau antur trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nglan Llyn. *(Ysgol Bro Famau)*
- Mae ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys nifer sylweddol o bynciau arholiad ychwanegol y tu allan i oriau ysgol, yn gyfraniadau amlwg at ledaenu a chyfoethogi profiadau disgyblion a myfyrwyr. *(Ysgol Brynhyfryd)*
- Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau cyfoethogi i'w disgyblion; sylfaenir y rhain yn bennaf ar orchwylion corfforol cyfnod byr..... *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Bydd disgyblion o alluoedd gwahanol yn elwa o ystod eang o weithgareddau allgyrsiol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau cerddorol, dawn, chwaraeon a diwylliannol. Cefnogir a mwynheir y clybiau hyn gan fechgyn a genethod ac enillir gwybodaeth a sgiliau gwerthfawr ohonynt. Mae'r ysgol wedi cael cryn lwyddiant wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau Eisteddfod yr Urdd yn lleol ac yn genedlaethol. Yn ychwanegol, mae ymweliadau â chanolfannau gweithgareddau awyr agored wedi datblygu sgiliau personol a chymdeithasol y disgyblion ymhellach. *(Ysgol Mair)*
- Bydd yr ysgol yn croesawu amrywiaeth o arlunwyr, cerflunwyr ac ymwelwyr eraill sy'n dod ag arbenigedd i'r ysgol. *(Ysgol Mair)*

Cynnydd disgyblion / ennill hyder / sgiliau

5 Ysgol

- Mae darpariaeth datblygu sgiliau allweddol yn yr ysgol yn dda. Tra gwneir y disgyblion yn ymwybodol o'r sgiliau allweddol, maent yn dangos cynnydd da wrth gymhathu'r sgiliau hyn, yn arbennig ym maes TGaCh. Bydd y staff yn sicrhau y dysgir y sgiliau allweddol i'r disgyblion mewn dull perthnasol. Er enghraifft, bydd disgyblion Cam Allweddol 2 yn defnyddio taenlenni a chamera fideo mewn gwrs Gymraeg. (*Ysgol Bro Famau*)
- Telir sylw at ddatblygiad sgiliau sylfaenol y disgyblion yn yr ysgol. Yn ddiweddar, fel cydnabyddiaeth i'r gwaith yma, adnewyddwyd Marc Ansawdd Sgiliau Sylfaenol Cynradd yr ysgol. (*Ysgol Bro Famau*)
- Mae cynllunio, cydlynu a monitro'r ddarpariaeth sgiliau allweddol ar draws CA4 a'r 6ed dosbarth wedi galluogi'r holl fyfyrwyr i ennill achrediad. Mae myfyrwyr y chweched dosbarth yn ennill achrediad yn y chwech sgil allweddol ar lefel 2 neu 3. (*Ysgol Brynhyfryd*)
- Mae'r ddarpariaeth dda ar gyfer cyflwyniad ac achrediad sgiliau sylfaenol yng Ngham Allweddol 3 yn cael ei sylfaenu ar fewnbwn penodol o bedair adran. (*Ysgol Uwchradd Y Rhyl*)
- Yn ystod cyfnod cofrestru'r bore, bydd pob disgybl yn cael darpariaeth ar gyfer datblygu sgiliau sylfaenol ac allweddol mewn llythrennedd a rhifogrwydd. (*Ysgol Uwchradd Y Rhyl*)
- Mae'r ysgol wedi dangos cynnydd da wrth ddatblygu'r defnydd o sgiliau allweddol mewn cyfathrebiad a rhifogrwydd ar draws y cwricwlwm ym mhob pwnc a dyma beth sydd wedi cyfrannu at godi'r safonau yn y pynciau hyn. (*Ysgol Mair*)

Rhaglen ar gyfer / Effaith darpariaeth ABaCh

5 Ysgol

- Mae rhaglen dda ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol (ABaCh), sy'n cwmpasu'r fframwaith cenedlaethol yn briodol. (*Ysgol RW Borthyn*)
- Er nad oes cynlluniau manwl ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol (ABaCh), mae'n rhan annatod o naws yr ysgol a'r cwricwlwm. Mae'n cynorthwyo disgyblion i ymgodymu â hwy hunain a'u hemosiynau. (*Ysgol Bro Famau*)
- Yn CA4 ac yn y Chweched Dosbarth, mae'r ysgol yn integreiddio addysg grefyddol, addysg a chyfarwyddyd gyrfâu o ansawdd da, addysg iechyd ac ABaCh i raglen a gynlluniwyd yn ofalus i gyfarfod ag anghenion y craidd dysgu. (*Ysgol Brynhyfryd*)
- Mae wedi nodi sut mae pob pwnc yn cyfrannu at gyfarfod pob agwedd o fframwaith ABaCh. Datblygir y meysydd na'i cynhwysid trwy gyfres o ddigwyddiadau dyddiol arbennig, digwyddiadau a gynllunnir ac a gydlynir yn hynod o dda. (*Ysgol Brynhyfryd*)
- Cefnogir datblygiad personol disgyblion trwy raglen gydag amserlen ABaCh gynhwysfawr ym Mlwyddyn 7 ac yng Ngham Allweddol 4. Ym Mlwyddyn 8 a 9 a'r Chweched Dosbarth, cyflwynir datblygiad personol trwy nifer o feysydd pwnc. Yng Ngham Allweddol 3, bydd cyfraniadau gan ystod o asiantaethau allanol yn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o'r materion hyn. (*Ysgol Uwchradd Y Rhyl*)

- Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da gyda'i darpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol. Yn neilltuol, mae datblygiadau da yn elfennau galwedigaethol, amgylcheddol ac iechyd y cynllun. (*Ysgol Mair*)

Dinasyddiaeth fyd-eang / Addysg y Byd / Cysylltiadau Rhyngwladol 5 Ysgol

- Mae datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn y camau o gael eu datblygu. (*Ysgol RW Borthyn*)
- Mae cyswllt dosbarth unigol ag ysgol yn Seland Newydd a bydd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn cael cyfle i ymweld â Ffrainc yn flynyddol. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cofrestru gyda'r Prosiect Comenius a bwriedir creu cynllun i ymestyn datblygiad economaidd. (*Ysgol RW Borthyn*)
- Mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn datblygu. Serch hyn, mae'r gwaith yn y dyddiau cynnar ac mae angen eu datblygu ymhellach hyd at lefel dda. (*Ysgol Bro Famau*)
- Mae addysg datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda. Mae'r ysgol wedi nodi sut mae pob pwnc yn cyfrannu yn y maes yma ac ym Mlwyddyn 7 cyflwynwyd gwaith penodol o dan agenda 'sgiliau'. (*Ysgol Brynhafryd*)
- Mae'r meysydd pynciau a'r rhaglen ABaCh yn cynnwys ystod eang o weithgareddau sy'n cyfrannu at ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy ac agweddau o ddinasyddiaeth fyd-eang. Mae cyfleusterau ailgylchu yn yr ysgol ac mae'r ysgol yn datblygu ei hymwybyddiaeth ecolegol. (*Ysgol Uwchradd Y Rhyl*)
- Mae dinasyddiaeth fyd-eang yn datblygu'n dda. Er nad oes cysylltiadau ffurfiol gyda gwledydd tramor ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'i ffynhonnell naturiol ei hun o ddisgyblion o wledydd eraill. Yn ystod 'Wythnos Ryngwladol' yn ddiweddar, daeth disgyblion i'r ysgol yn eu gwisgoedd cenedlaethol a blaswyd bwydydd o'u mamwledydd a baratowyd gan gogyddes yr ysgol. Siaredir deuddeng iaith wahanol (heb gynnwys Cymraeg a Saesneg) yn yr ysgol a dangosir mamwledydd y disgyblion ar siart o'r byd. (*Ysgol Mair*)

Ymwybyddiaeth / Hyrwyddiad datblygiad cynaliadwy 5 Ysgol

- Mae datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn y camau cyntaf o gael eu datblygu. (*Ysgol RW Borthyn*)
- Mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddatblygiad cynaliadwy a materion dinasyddiaeth fyd-eang yn datblygu. Serch hyn, mae'r gwaith yn y dyddiau cynnar ac mae angen eu datblygu ymhellach hyd at lefel dda. (*Ysgol Bro Famau*)
- Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'i thir ei hun ynghyd â'r siwrnai rhwng y ddau safle i hyrwyddo dealltwriaeth o ecoleg leol. Mae pwyllgor ecoleg yn bodoli ac mae'r ysgol yn gweithio tuag at Wobr Efydd Ysgolion Ecolegol. Mae ychydig o ailgylchu papur a phlastigion yn cymryd lle a bydd monitoriaid ecoleg yn helpu i leihau gwastraff. (*Ysgol Bro Famau*)
- Mae addysg datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda. Mae'r ysgol wedi nodi sut mae pob pwnc yn cyfrannu yn y maes yma ac

ym Mlwyddyn 7 cyflwynwyd gwaith penodol o dan agenda 'sgiliau'. (*Ysgol Brynhyfryd*)

- Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o faterion fel 'y fasnach deg' ac maent yn ymwneud â nifer o brosiectau datblygiadau cynaliadwy gwerth chweil. Mae'r ffordd mae'r ysgol yn ymddwyn mewn ffordd gynaliadwy yn parhau i ddatblygu. Mae'n gwneud cynnydd da wrth ailgylchu a lleihau ei ddefnydd o ynni ac adnoddau. (*Ysgol Brynhyfryd*)
- Mae'r meysydd pynciau a'r rhaglen ABACh yn cynnwys ystod eang o weithgareddau sy'n cyfrannu at ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy ac agweddau o ddinasyddiaeth fyd-eang. Mae nifer o gyfleusterau ailgylchu yn yr ysgol ac mae'r ysgol yn datblygu ei ymwybyddiaeth ecolegol. (*Ysgol Uwchradd Y Rhyl*)
- Hyrwyddir datblygiad cynaliadwy yn dda ac mae'r ysgol yn gweithio tuag at ei wobwr Ecolegol arian. Mae tomen gompost yn yr ysgol a chasglir papur a chaniau'n rheolaidd cyn eu hailgylchu. Cwblhawyd gardd ecolegol/amgylcheddol neilltuola flwyddyn ddiwethaf gydag ymrwymiad a phartneriaeth rhieni a'r gymuned leol. Mae'r holl ysgol yn gwneud defnydd da o'r ardd yma, sy'n destun balchder mawr. (*Ysgol Mair*)

Y Cwricwlwm Cymreig / Y Dimensiwn Cymreig

4 Ysgol

- Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig yn dda yn y rhan fwyaf o bynciau fel y bod gan y disgyblion deimlad cryf am y wlad maent yn byw ynddi. (*Ysgol RW Borthyn*)
- Mae'r ysgol yn cyfarfod â holl anghenion cwrs ac anghenion cyfreithiol gan gynnwys y Cwricwlwm Cymreig. (*Ysgol Bro Famau*)
-
- Mae darpariaeth Y Cwricwlwm Cymreig, trwy bynciau fel celfyddyd, hanes a Chymraeg ail iaith, yn dda gyda rhai nodweddion neilltuol. Er enghraifft, yng Ngham Allweddol 2 mewn hanes, astudir Terfysgoedd Rebeca ac yng Ngham Allweddol 1 mewn Addysg Grefyddol, edrychir ar stori Melangell. Mae disgyblion Cam Allweddol 1 mewn celfyddyd, yn edrych ar waith Keith Stone. Mae'r ysgol yn hyrwyddo ethos Cymreig cadarnhaol iawn a chydweddir hyn gydag arddangosfeydd, testunau a themâu. Mae'r disgyblion yn meddu ar wybodaeth drylwyr o dreftadaeth Gymreig a'i thraddodiadau. (*Ysgol Bro Famau*)
- Mae arwyddion dwyieithog y disgyblion yn datblygu'n dda, ac mewn ambell i ddosbarth yn dda iawn. (*Ysgol Bro Famau*)
- Mae ansawdd darpariaeth 'Y Cwricwlwm Cymreig yn dda. (*Ysgol Brynhyfryd*)
Yng nghyfarfod Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAG) Sir Ddinbych a gynhaliwyd yn ddiweddar, trafododd yr aelodau ganlyniadau arholiadau 2008, ac roeddent yn falch o weld bod lefelau perfformiad wedi cynyddu rhywfaint. Yn gyffredinol, mae nifer y myfyrwyr a astudiodd y cwrs llawn Astudiaethau Crefyddol TGAU a lwyddodd i ennill graddau A* i C ar draws yr awdurdod 5.1% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (mae perfformiad bechgyn wedi cynyddu i 11.4% yn uwch na'r ffigyrau cenedlaethol a pherfformiad merched 1.2% yn uwch na'r ffigyrau cenedlaethol). Dymunai CYSAG longyfarch ysgolion am y gwelliant hwn, yn arbennig yr ysgolion hynny a lwyddodd i gael canlyniadau llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Fodd bynnag, mae canlyniadau'r cwrs byr Astudiaethau Crefyddol TGAU braidd yn siomedig ac nid ydynt yn dilyn y tuedd a welir yng Nghymru yn gyffredinol. Mae canlyniadau'r awdurdod ar gyfer pob ymgeisydd, bechgyn a merched, i gyd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (pob ymgeisydd: -16.3%, bechgyn: -20.1%, a merched: -12.9%). Mae aelodau CYSAG yn pryderu nad yw'r canlyniadau hyn yn cyd-fynd â chanlyniadau awdurdodau eraill ac ymddengys bod canran uchel o'r myfyrwyr sy'n ymgeisio yn fyfyrwyr gallu is sy'n golygu bod y canlyniadau cyffredinol yn cael eu heffeithio.

Wrth gwrs, mae'r aelodau'n cydnabod ac yn derbyn bod niferoedd yr ymgeiswyr a lefel gallu'r ymgeiswyr yn effeithio ar y graddau a gyflawnir. Fodd bynnag, mynegodd yr aelodau bryderon fod nifer y myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau TGAU llawn a byr wedi gostwng. Wrth edrych ar niferoedd yr ymgeiswyr ym mhob ysgol, mewn rhai canolfannau gwelir bod cohortau cyfan bron yn astudio naill ai'r cwrs llawn TGAU neu'r cwrs byr TGAU, ac mewn canolfannau eraill gwelir niferoedd cymharol fach yn astudio'r naill gwrs neu'r llall neu'r ddau. Yn unol â hynny, gofynnodd yr aelodau a fyddai modd annog ysgolion (nad ydynt eisoes yn gwneud) i ystyried o ddifrif defnyddio'r Cwrs Byr TGAU fel modd o achredu'r rhaglen AG statudol y gofynnir i ysgolion ei darparu i bob disgybl Cyfnod Allweddol 4.

Byddai hyn yn golygu bod y cohort cyfan, ynghyd â'r rheiny sy'n dewis astudio'r cwrs llawn TGAU, yn ennill cymhwyster Addysg Grefyddol. Gallai hyn gael effaith bositif ar y canlyniadau gan y byddai ystod lawn o lefelau gallu yn cael ei chynnwys, ac nid dim ond y rheiny sy'n dewis neu'n ethol sefyll arholiad, sy'n gallu golygu bod lefelau gallu yn goleddu i un cyfeiriad.

Yn olaf, ar ôl edrych ar ffigyrau'r saith mlynedd diwethaf, roedd yr aelodau'n pryderu bod rhai ysgolion wedi cael canlyniadau is na'r cyfartaledd cenedlaethol yn gyson dros dair blynedd a byddant yn gwahodd penaethiaid yr ysgolion hynny i roi darlun llawnach o'u canlyniadau arholiadau i CYSAG (megis data gwerth ychwanegol a ffactorau eraill a allai ddylanwadu ar ganlyniadau) a thrafod strategaethau i wella eu perfformiad yn y dyfodol.

Hyderaf y byddwch hefyd yn ystyried y materion ymgeisio a amlinellir uchod ac os oes angen, yn trafod yr opsiynau a'r posibiladau gyda Mr Gavin Craigen, Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol a Swyddog CYSAG.

Diolch i chi am eich amser.

Yn gywir,

B H Jones

Y Parch Brian H. Jones
Cadeirydd

Os ydych yn ymateb i'r llythyr hwn, cyfathrebwch gyda Mr Gavin Craigen, Arolygydd / Ymgynghorydd AG, Cymorth Cwricwlwm, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6ND. Ffôn: 01352 704103; e-bost: gavin.craigen@flintshire.gov.uk ; ffacs: 01352 754202

Mohammed Mehmet
Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro: Dysgu Gydol Oes
Corporate Director : Lifelong Learning

Gareth Wyn Jones MSc. Med. DipEd/Man
Pennaeth Gwella Ysgolion
Head of School Improvement



To: All Secondary Headteachers

Eich cyf/Our ref: GPC/CS/DS/020209
Dyddiad/Date: 11 February 2009
Rhif union/Direct dial: 01352 704103
Gofynner am/Ask for Gavin Craigen
✉ : gavin.craigen@flintshire.gov.uk

Dear Colleagues

At the recent meeting of the Denbighshire Standing Advisory Council for Religious Education (SACRE) members discussed the examination results for 2008, and were pleased that there has been some increase in levels of performance so that at GCSE full course RS the overall A* to C performance across the authority stands at 5.1% above the national average (with boys' performance also up at 11.4% above national figures and girls' performance at 1.2% above the national figure). SACRE wished to congratulate schools for this improvement, and particularly those schools whose results were significantly above the national average.

The GCSE short course RS results however are a little disappointing – and do not follow the trend in Wales as a whole - in that the authority results for all candidates, boys and girls were all below the national averages (All: -16.3%, boys: -20.1%, and girls: -12.9%). It is a concern to members of SACRE that these results are not as in other authorities, and that for some schools it appears that the entry is made up of largely lower ability candidates, therefore affecting the overall results.

Members do of course acknowledge and accept that entry numbers, and the ability of those being entered affect the grades achieved. However, members did express some concern that numbers of candidates in both full and short course GCSE have decreased. In looking at entry numbers across the schools, there are some centres where virtually whole cohort entry takes place for either the GCSE full course or the GCSE short course, and some centres where there are relatively small numbers in either or both. Accordingly, members asked if schools (who do not already do so) could be encouraged to give serious consideration to using the GCSE Short Course as a means of accrediting the statutory RE programme that the school is required to provide for all pupils at Key Stage 4. This would mean that, together with those opting for the full course GCSE, the whole cohort would gain a qualification for RE. This could also have a positive impact on the results, in that there would be a greater inclusion of the full range of ability, rather than merely those who opt or elect for the examination, where ability may be slanted in one direction.

Finally, looking at the figures for the last seven years, members were concerned that some schools have had results consistently below the national averages for more than three years, and will be inviting the Head teachers of those schools to give a fuller picture to SACRE of their examination results (such as value added data, and other factors that may influence results), and to discuss strategies for raising the performance in the future.

I trust that you will also consider the issue of entry as outlined above, and if necessary discuss the options and possibilities with Mr Gavin Craigen, the Inspector/Adviser for RE and Officer to SACRE.

Thank you for your time.

Yours faithfully,

B H Jones

Rev Brian H. Jones
Chairman

*If responding to this letter, please communicate with Mr Gavin Craigen,
Inspector/Adviser RE, Curriculum Support, County Hall, Mold, Flintshire, CH7 6ND.
Tel: 01352 704103; email: gavin.craigen@flintshire.gov.uk ; fax: 01352 754202*

Cyngor Sir Dinbych
Cyngor Cyngori Sefydlog ar Addysg Grefyddol
(SACRE)

Dyddiad y Cyfarfod:

8 Mehefin 2009

Agenda:

5

Manylion yr Adroddiad

Cefndir i'r Adroddiad:

Mae SACRE yn parhau i fod yn aelod o Gymdeithas SACRE Cymru ac mae'n derbyn adroddiadau am gyfarfodydd oddi wrth aelodau sy'n mynychu, copïau o gofnodion cyfarfodydd ac unrhyw adroddiad arall oddi wrth y Gymdeithas.

Pwrpas yr Adroddiad:

Hysbysu'r aelodau am ffocws a phrif ddeilliannau'r cyfarfod blaenorol; ac atgoffa aelodau bod y SACRE sy'n lletya (Sir Ddinbych y tro hwn) yn rhoi gwahoddiad agored i aelodau fynychu'r cyfarfod

Argymhellion:

- Derbyn cyflwyniadau llafar a chofnodion drafft y cyfarfod blaenorol.
- Derbyn y papurau ar gyfer cyfarfod 24 Mehefin ac annog aelodau i wneud ymdrech i fynychu.

DRAFFT / DRAFT



**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Nhy Brynmenyn,
Penybont ar 13 Mawrth 2009 / *Minutes of meeting held at
Brynmenyn House, Bridgend on 13 March 2009***

Yn Bresennol / Present

| | | |
|---|--|---|
| <p>Ynys Môn / Anglesey Eurfryn Davies Bethan James Rheinallt Thomas</p> <p>Blaenau Gwent Gill Vaisey</p> <p>Pen-y-bont ar Ogwr / Bridgend Megan Inglesant Allan Jones Carys Thomas Richard Landy Edward Evans</p> <p>Caerffili/ Caerphilly Michael Gray Christine Thompson David Brooks Vicky Thomas</p> <p>Caerdydd / Cardiff Caroline Neudegg Martin Rawle</p> <p>Sir Gaerfyrddin / Carmarthenshire Helen Gibbon Mary Parry</p> <p>Ceredigion Mary Parry Vaughan Salisbury</p> <p>Conwy Eirian Pierce</p> | <p>Sir Ddinbych / Denbighshire Mairwenna B Lloyd Brian Huw Jones</p> <p>Sir y Fflint / Flintshire Nigel Steele-Mortimer</p> <p>Gwynedd Bethan James Aeron M Jones W M Meredith</p> <p>Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil Carys Thomas</p> <p>Sir Fynwy / Monmouthshire Gill Vaisey Sue Cave</p> <p>Castell-nedd Port Talbot / Neath and Port Talbot Jen Malcolm</p> <p>Casnewydd / Newport Vicky Thomas Sally Northcott David Hando</p> <p>Sir Benfro / Pembrokeshire</p> | <p>Powys</p> <p>Rhondda Cynon Taf Carys Thomas</p> <p>Abertawe / Swansea Vicky Thomas</p> <p>Torfaen Vicky Thomas</p> <p>Bro Morgannwg / Vale of Glamorgan Gill Vaisey</p> <p>Wrecsam / Wrexham Vicky Barlow Tania ap Siôn</p> <p>Sylwedyddion / Observers Leslie J Francis (St Mary's Centre) Peter Privett (Godly Play) Ceri Weatherall (Estyn) Lynda Maddock (Trinity College / WNCRE) Tudor Thomas (WJEC) Mike Strange (Christianity Unpacked)</p> |
|---|--|---|

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Nhŷ Brynmenyn, Pen-y-bont ar Ogwr, ar 13 Mawrth 2009)

1. Cyflwyniad a chroeso

Agorwyd y cyfarfod gan yr Is-Gadeirydd, Michael Gray, oherwydd bod y Cadeirydd yn cyrraedd yn hwyr. Estynnodd Maer Pen-y-bont ar Ogwr groeso cynnes i'r aelodau i'r cyfarfod. Gwnaeth y sylw fod hwn yn gyfnod pwysig ar gyfer addysg grefyddol yng Nghymru, oherwydd cyhoeddi Meysydd Llafur Cytûn newydd, ac yr oedd hi'n ddiolchgar am y canllawiau ategol a oedd yn cael eu cynhyrchu. Diolchodd yr Is-Gadeirydd i'r Maer am ei chroeso, a chynigiodd ddymuniadau gorau iddi am ei chyfnod yn y swydd.

2. Adfyfrio tawel

Cynigiodd y Cadeirydd Ddiwrnod y Trwynau Cochion fel y pwnc ar gyfer adfyfrio tawel. Eleni, yr oedd y themâu a amlygwyd yn cynnwys: malaria; addysg; iechyd mamol; ac iechyd meddwl. Gwahoddwyd yr aelodau i wneud cyfraniadau tuag at Ddiwrnod y Trwynau Cochion dros y cinio canol dydd. Codwyd cyfanswm o £103, a byddai'r Cadeirydd yn ei roi'n uniongyrchol i apêl Diwrnod y Trwynau Cochion drwy fanc.

Cynigiodd y Cadeirydd ail adfyfyrdod ynglŷn â'r newyddion trist am farwolaeth yr Archddiacon John Lewis, a thalodd deyrnged i'w gyfraniad gwerthfawr i addysg grefyddol ac i'r Eglwys. Cafodd teyrnged ysgrifenedig i Ddafydd Traherne, cyn Ymgynghorydd AG De Morgannwg, ei chylchredeg i'r aelodau.

3. Ymddiheuriadau

Christine Abbas, Paul Brown, Gavin Craigen, Marilyn Frazer, Fred Gilmore, Joyce Howells, Morfudd Jones, Meinir Loader, Lyndon Lloyd, Margaret Pead, Eldon Phillips, B Price, Julie Pugh, Nicholas Richter, Sali Roberts, Tegid Roberts, John Rogers, Richard Thomas, Jane Ward.

4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghwbrân ar 7 Tachwedd 2008

Cynigiodd y Cadeirydd ychydig fanylion i'w

Minutes of the meeting held at Brynmenyn House, Bridgend, 13 March 2009 (Welsh version to follow)

1. Introduction and welcome

Vice Chair, Michael Gray opened the meeting due to the Chair's delayed arrival. The Mayor of Bridgend warmly welcomed members to the meeting. She observed that this was an important time for religious education in Wales with the appearance of new Agreed Syllabi and was grateful for the supporting guidance being produced. The Vice Chair thanked the Mayor for her welcome and offered best wishes for her term of office.

2. Quiet reflection

The Chair offered Red Nose Day as the subject for quiet reflection. This year the themes highlighted included: malaria; education; maternal health; and mental health. Members were invited to make contributions to Red Nose Day over lunch. A total of £103 was raised which the Chair would donate directly to the Red Nose Day appeal through a bank.

The Chair offered a second reflection about the sad news of the death of Archdeacon John Lewis, and paid tribute to his valuable contribution to religious education and to the Church. A written tribute by Dafydd Treharne, former RE Adviser for South Glamorgan, was circulated to members.

3. Apologies

Christine Abbas, Paul Brown, Gavin Craigen, Marilyn Frazer, Fred Gilmore, Joyce Howells, Morfudd Jones, Meinir Loader, Lyndon Lloyd, Margaret Pead, Eldon Phillips, B Price, Julie Pugh, Nicholas Richter, Sali Roberts, Tegid Roberts, John Rogers, Richard Thomas, Jane Ward.

4. Minutes of the meeting held at Cwmbran on 7 November 2008

The Chair offered a few details to be included in the

cynnwys yn y cofnodion. Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod fel rhai cywir.

5. Materion yn codi

(a) Tudalen 3 — Cyfarfod fforwm Estyn . Yr oedd Rheinallt Thomas wedi mynd i'r cyfarfod, a dosbarthodd gopïau o adroddiad llawn arno i'r aelodau. Diolchodd y Cadeirydd i Rheinallt Thomas am fynd i'r cyfarfod ac am ysgrifennu'r adroddiad manwl.

(b) Tudalen 3 — Yr oedd yr anghydfod gyda chylchgrawn *Yr Athro* ynglŷn ag addoli ar y cyd wedi ei ddatrys. Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau fod y Golygydd newydd wedi cytuno i gymryd camau priodol i gywiro'r wybodaeth anghywir a oedd wedi ei chyflwyno gan yr erthygl dan sylw.

(c) Tudalen 3 — Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau y byddai Sali Roberts yn ymgymryd â rôl y golygydd ar gyfer rhifyn y gwanwyn o *Newyddion AG*. Byddai Geraint Davies, golygydd rhifyn cyntaf *Newyddion AG*, a gyhoeddwyd drwy gydweithrediad rhwng Prifysgol Bangor a'r TUC, yn absennol o'i waith tan yr haf oherwydd salwch. Cynigiodd y Cadeirydd gopïau sbâr o *Newyddion AG* i'r aelodau. Y gobaith oedd y byddai rhifyn y gwanwyn o'r cylchgrawn ar gael ym mis Ebrill.

(d) Tudalen 11 — Mynegwyd peth pryder p'un ai'r oedd yr adnoddau Ôl-16 ar gyfer addysg grefyddol, a oedd wedi eu cynhyrchu ar gyfer y gynhadledd Ôl-16 ar 4 Hydref 2008, wedi eu postio i ysgolion yn Ne Cymru ai peidio. Dywedwyd wrth yr aelodau fod Enid Griffiths o APADGOS yn ymwybodol o'r broblem a'i bod yn gweithio i'w datrys.

(e) Tudalen 11 — Cyngor AG Cymru a Lloegr. Yr oedd Tania ap Siôn yn fodlon cynrychioli CCYSAGauC ar y Cyngor AG. Yr oedd y Cadeirydd wedi gofyn hefyd i Gill Vaisey ystyried a allai weithredu fel ail gynrychiolydd CCYSAGauC ar y Cyngor.

6. Gohebiaeth

Neges e-bost gan Brian Gates ynglŷn â'r sefyllfa yn Lloegr ac arweiniad ynglŷn â'r Cylchlythyr. Ymddiriedolaeth Jerwsalem: gwahoddiad i ysgolion

minutes. The minutes were accepted as an accurate record of the meeting.

5. Matters arising

(a) Page 3 – Estyn forum meeting. Rheinallt Thomas attended the meeting and distributed copies of a full report to members. The Chair thanked Rheinallt Thomas for attending the meeting and for writing the detailed report.

(b) Page 3 – The collective worship issue with regard to *Yr Athro* had been resolved. The Chair informed members that the new Editor had agreed to take appropriate steps to correct the misinformation provided by the article in question.

(c) Page 3 – The Chair informed members that Sali Roberts would take on the role of editor for the spring edition of *RE News*. Geraint Davies, editor of the first edition of *RE News* published by the Bangor University and TUC collaboration, would be absent from work until the summer due to illness. The Chair offered spare copies of *RE News* to members. It was hoped that the spring edition of the magazine would be available in April.

(d) Page 11 – There was some concern about whether the Post-16 resources for religious education produced for the Post-16 conference on 4 October 2008 had been posted out to schools in south Wales. Members were informed that Enid Griffiths, DCELLS, was aware of the problem and was working to resolve it.

(e) Page 11 - RE Council for England and Wales. Tania ap Siôn was willing to represent WASACRE on the RE Council. The Chair also asked Gill Vaisey to consider whether she would be able to be the second WASACRE representative on the Council.

6. Correspondence

E-mail from Brian Gates with regard to situation in England and guidance on the Circular. Jerusalem Trust: invitation to schools to apply for

wneud cais am grantiau ar gyfer prynu adnoddau ynglŷn â Christnogaeth.

7. Trefniadau ac ethol swyddogion newydd

Eglurodd y Cadeirydd y byddai'n ymddiswyddo fel Cadeirydd CCYSAGauC oherwydd y newidiadau a oedd ar droed yng Ngholeg y Drindod ac yn y sector HAGA yng Nghymru. Yr oedd yn ddiolchgar i'r Is-Gadeirydd, Michael Gray, am ei barodrwydd i ymgymryd â rôl y Cadeirydd yn yr haf. Felly, yn ystod cyfarfod tymor yr haf CCYSAGauC, byddai etholiadau'n cael eu cynnal er mwyn penodi Is-Gadeirydd newydd yn ogystal â dau aelod o Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC.

8. Cyflwyniad gan Tudor Thomas: Manylebau'r TGAU newydd mewn Astudiaethau Crefyddol

Cyflwynodd Tudor Thomas, Swyddog AC/Prif Reolwr CBAC, ddwy fanyleb CBAC newydd ar gyfer TGAU i'r aelodau: Manyleb A a Manyleb B, dewisiadau A a B. Byddai addysgu yn ôl y manylebau hyn yn cychwyn ym mis Medi 2009, a'r asesu cyntaf yn cael ei gynnal yn ystod haf 2010. Eglurodd fod y newidiadau hyn yn cael eu cyflwyno er mwyn ymateb i: ofynion APADGOS/QCA; y fframweithiau anstatudol ar gyfer Cymru a Lloegr; y canolbwyntio ar gydlynid cymunedol yn Lloegr; diwedd gwaith cwrs; ac adborth athrawon. Cafodd cynnwys y manylebau a'r cyfuniadau a ganiateid eu hamlinellu, a disgrifiwyd ffurf y papurau arholiad. Yr oedd y cymorth a fyddai ar gael gan GBAC ynglŷn â'r manylebau newydd yn cynnwys ymgynghorwyr cymorth rhanbarthol, gwefan CBAC, hyfforddiant, a chynlluniau gwaith. Yr oedd ffigyrau'n dangos bod Astudiaethau Crefyddol yn un o'r pynciau a oedd yn tyfu gyflymaf yn CA4 ac ar y Safon Uwch, o ran nifer y disgyblion a oedd yn ymgymryd â'r cyrsiau.

Yr oedd y cwestiynau gan aelodau'n cynnwys paham yr oedd Bwdhaeth wedi ei gadael allan, gan fod hon yn grefydd boblogaidd i'w hastudio ar y Safon Uwch, a pham yr oedd unedau 'Astudiaethau Beiblaidd' wedi eu hepgor. Yn y ddau achos, yr oedd y niferoedd bychain a oedd yn ymgymryd â'r pynciau ar lefel TGAU yn cael eu dyfynnu fel ffactor achosol sylweddol. Derbyniodd yr aelodau daflen a oedd yn cynnwys y cyflwyniad PowerPoint.

grants to purchase resources on Christianity.

7. Arrangements and election of new officers

The Chair explained that due to the changes taking place at Trinity and within the ITET sector in Wales, he would be stepping down as Chair of WASACRE. He was grateful to the Vice Chair, Michael Gray for his willingness to take on the role of Chair in the summer. Therefore, in the summer term meeting of WASACRE, elections would take place to appoint a new Vice Chair as well as two members of the WASACRE Executive Committee.

8. Presentation by Tudor Thomas: New GCSE Religious Studies Specifications

Tudor, Thomas, RS Officer/Principal Manager for WJEC, presented the two new WJEC specifications for GCSE to members: Specification A and Specification B options A and B. Teaching for these specifications would begin in September 2009, with the first assessment in the summer of 2010. He explained that these changes were introduced in order to respond to: DCELLS/QCA requirements; the non-statutory frameworks for Wales and England; the community cohesion focus in England; the end of coursework; and teacher feedback. The content of the specifications and combinations permitted were outlined, and the format of the examination papers described. WJEC support for the new specifications included regional support advisors, the WJEC website, training, and schemes of work. Figures show that religious studies is one of the fastest growing subjects at KS4 and A-level in terms of take-up.

Questions from members included the reason for the omission of Buddhism which is a popular religion to study at A-level, and the omission of 'biblical studies' units. In both cases, poor uptake at GCSE level was cited as a significant determining factor. Members received a handout of the PowerPoint presentation.

9. Cyflwyniad gan Peter Privett: *Godly Play*

Eglurodd Peter Privett beth oedd tarddiad *Godly Play*, esboniodd beth ydoedd, ac estynnodd wahoddiad i'r aelodau i gymryd rhan mewn stori *Godly Play* fer. Yr oedd *Godly Play* wedi ymgodi o fyd Eglwysi ac nid o fyd ysgolion. Fodd bynnag, yr oedd cryn ddiddordeb mewn *Godly Play* wedi ei fynegi'n ddiweddar gan ysgolion cynradd a oedd yn dymuno'i ddefnyddio. Yr oedd *Godly Play* yn helpu athrawon i wireddu'r agwedd 'dysgu oddi wrth grefydd' ar AG. Mewn cyd-destun AG, ugain mlynedd ynghynt, yr oedd deunydd 'Gift to the Child' John Hull wedi ei seilio ar *Godly Play*, ond wedi canolbwyntio ar grefyddau gwahanol.

Y Cefndir: Mae *Godly Play* yn seiliedig ar athroniaeth Maria Montessori ynglŷn ag addysgu, ac mae wedi ei ffurfio a'i dylanwadu gan Sofia Cavalletti, Jerome Berryman a Rebecca Nye. Buan y bydd plant yn dysgu i gau allan yr holl syniad o ysbrydolrwydd, o ganlyniad i'r ymatebion negyddol gan eraill y maent yn eu profi yn gynnar yn eu hoes. Nod *Godly Play* yw ailagor y maes hwn gyda phobl ifanc. Mae *Godly Play* yn gosod y plentyn yng nghanol y dysgu, ac mae'n ymdrin â chwestiynau dirfodol mawrion, sy'n cael eu harchwilio drwy gyfrwng chwarae a stori. Mae hyn yn cael ei wneud drwy: greu man diogel (o ran amgylchedd ffisegol a'r gydberthynas rhwng oedolion a phlant); saerïo cymuned (cyn addysgu'r plant); cynnig iaith grefyddol (e.e. arteffactau); ac yna creu ystyr (sy'n cael ei wneud gennych chi eich hun fel cymuned).

Darparwyd amlinelliad nodweddiadol ar gyfer sesiwn *Godly Play*; yr oedd yn cynnwys sut i greu man cysegredig a saerïo cymuned cyn y sesiwn, yn ogystal â phrif elfennau'r sesiwn ei hun. Yr oedd y prif elfennau hyn yn cynnwys: croeso; stori; dyfalu ynglŷn â'r stori; amser gweithio; gwledd; a bendith. Yr oedd llonyddwch yn cael ei annog drwy gydol y gweithgarwch, ac ni ddylai ymatebion plant fyth gael eu rheoli na'u cyfarwyddo gan oedolion a oedd yn bresennol. Cymerodd yr aelodau ran mewn enghraifft fer o stori am y Geni.

Yr oedd llawer o ysgolion wedi gofyn am gyfleoedd i ymchwilio i sut y gellid defnyddio *Godly Play* yn yr ystafell ddosbarth, a gellid paratoi diwrnod cyflwyno *Godly Play* ar gyfer athrawon pe bai gan GYSAG'au

9. Presentation by Peter Privett: *Godly Play*

Peter Privett introduced the origins of Godly play, explained what Godly play was, and invited members to participate in a short Godly Play story. Godly play has emerged from a Church base and not a school base. However, considerable interest in Godly Play has been expressed by primary schools recently who have wanted to use it. Godly Play helps teachers to realise the 'learning from religion' aspect of RE. In an RE context, twenty years ago, John Hull's 'Gift to the Child' material was based on Godly Play, but focused on different religions.

Background: Godly Play is based on Maria Montessori's philosophy of teaching, and has been shaped and influenced by Sofia Cavalletti, Jerome Berryman, and Rebecca Nye. Children quickly learn to shut out the whole notion of spirituality as a result to the negative responses from others experienced at an early age. Godly play aims to reopen this area with young people. Godly Play places the child at the centre of learning and deals with big existential questions which are explored through play and story. This is done through: creating a safe place (in terms of physical environment and relationships between adults and children); building community (prior to teaching the children); offering religious language (e.g. artefacts); and then making meaning (which is done yourself as a community).

A typical outline for a Godly Play session was provided, and included how to create a sacred space and build community before the session as well as the main components of the session itself. These main components included: welcome; story; wondering about the story; work time; feast; and blessing. Stillness throughout was encouraged and children's responses should never be controlled or directed by adults present. Members participated in a short example of a story about the Nativity.

Many schools have requested opportunities to explore how Godly Play could be used in the classroom, and if SACREs were interested, a Godly Play introduction day could be prepared for

ddiddordeb yn hynny.

10. Cyflwyniad gan Mike Strange: Dadbacio Cristnogaeth

Mae *Dadbacio Cristnogaeth* yn adnodd mawr iawn sy'n cynnwys tri chrynoddisg, wedi eu hanelu at ddisgyblion cyfnod allweddol 2 a disgyblion iau yng nghyfnod allweddol 3. Mae ar gael drwy gyfrwng y Saesneg a'r Gymraeg. Dangoswyd enghreifftiau o'r cynnwys i'r aelodau, er enghraifft 'Athrawiaethau Allweddol yr Iesu: maddeuant', a oedd yn arddangos y cyflwyno amlgyfrwng ac amryfal ddulliau o archwilio'r pynciau.

Yr oedd copïau rhad ac am ddim o'r adnoddau'n cael eu dosbarthu i ysgolion drwy eu CYSAG'au lleol. Diolchodd Mike Strange i'r aelodau am eu cymorth wrth wneud y dosbarthiad hwn yn bosibl. Yn ogystal, cynigiodd ddod i annerch digwyddiadau hyfforddi AAL'au, pe gofynnid iddo wneud hynny. Wedi hyn, byddai'r adnodd nesaf i ymddangos yn cael ei anelu at ysgolion uwchradd. Tynnodd Mike Strange sylw hefyd at wefan 'RE: Quest', a oedd yn cynnwys llawer iawn o ddeunydd newydd (er enghraifft, taith rithwir o gwmpas Eglwys Gadeiriol Tyddewi, a gwybodaeth ynglŷn â'r twf mewn adnoddau ar gyfer cyfnod allweddol 3). Yn ychwanegol at hynny, yr oedd y wefan bob amser yn cynnwys agwedd dymhorol a oedd yn adfyfyrio ar flwyddyn yr Eglwys.

Mynegodd yr aelodau eu gwerthfawrogiad o fersiwn Cymraeg yr adnodd, ac o gyfraniad yr adnodd i Sgiliau Meddwl.

11. Arddangos adnoddau AG

(a) Dangosodd Gill Vaisey gatalog newydd books@press i'r aelodau, a thynnodd sylw at yr adnoddau newydd (yr oedd y rhain wedi eu cyflwyno'n fanylach yng nghyfarfod blaenorol CCYSAGauC). Yr oedd yn bosibl i books@press gyflenwi mewn crynswth, mewn pecynnau mawr, a gofynnwyd i'r ymgynghorwyr gymryd y rhain i'w gwerthu i ysgolion.

(b) Tynnodd Rheinallt Thomas sylw at adnoddau MAGC a oedd wedi eu cynnwys ar daflen a

teachers.

10. Presentation by Mike Strange: Christianity Unpacked

Christianity Unpacked is a very large resource of three CDs, where are aimed at key stage 2 pupils and lower key stage 3 pupils. It is available through the medium of English and Welsh. Members were shown examples of the content, for example, 'Key Teachings of Jesus: forgiveness', which illustrated the multi-media presentation and various approaches taken to exploring the topics.

Free copies of the resources were being distributed to schools through their local SACREs. Mike Strange thanked members for their help in making this distribution possible. He also offered to come and speak at LEA training events, if requested. After this, the next resource to appear would be aimed at secondary schools. Mike Strange also drew attention to the RE: Quest website which had a great deal of new material (for example, the virtual tour of St David's Cathedral and the growth of the key stage 3 resources). In addition, the website always included a seasonal aspect reflecting the Church year.

Members expressed their appreciation of the Welsh version of the resource and the resource's contribution to Thinking Skills.

11. Showcase of RE resources

(a) Gill Vaisey made available the new books@press catalogue to members and drew attention to the new resources (these were presented in greater depth at the previous WASACRE meeting). It was possible for books@press to supply in bulk in large packs and advisers were asked to take these to sell to schools.

(b) Rheinallt Thomas drew attention to the resources of REMW included on a leaflet received

dderbyniwyd gan aelodau (yr oedd y rhain wedi eu cyflwyno'n fanylach yng nghyfarfod blaenorol CCYSAGauC). Yn ogystal, cynigiodd ddewis 'gwerthu neu ddychwelyd' i ymgynghorwyr, os oedd ymgynghorwyr yn dymuno cael setiau o adnoddau i'w gwerthu i ysgolion. Tynnwyd sylw arbennig unwaith eto at yr adnodd *RE Ideas*, yn ogystal â gwybodaeth yn ymwneud â manteision tanysgrifiad gan AALI i MAGC.

(c) Rhoddodd Tania ap Siôn wybod i'r aelodau fod y fersiwn Saesneg o *Crefyddau'r Byd Heddiw: Llawlyfr Athrawon* bellach wedi ei gyhoeddi. Atgoffodd yr aelodau fod y gyfres llyfrau straeon hon ar gyfer cyfnod allweddol 2 wedi ei chynnwys yng nghyflwyniad Denize Morris (Swyddog Pwnc APADGOS ar gyfer Addysg Grefyddol) yng nghyfarfod diwethaf CCYSAGauC, a oedd wedi canolbwyntio ar ddeunyddiau ategol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg grefyddol yn y cwricwlwm newydd.

Tynnodd sylw hefyd at y CD-ROM ryngweithiol, *Jewish Way of Life*, a oedd wedi ei chynhyrchu gan Fwrdd Dirprwyon Iddewon Prydain a Sefydliad Pears. Derbyniodd yr aelodau gopi o'r CD-ROM i'w gymryd yn ôl i'w CYSAG'au. Yr oedd unigolion yn gallu archebu copïau o'r CD-ROM oddi ar wefan ategol 'Jewish Way of Life', a byddai Tania ap Siôn yn e-bostio manylion i glercod yr holl GYSAG'au ynglŷn â sut y gallai AALI'au/CYSAG'au archebu copïau lluosog am ddim i'w dosbarthu i'w hysgolion. Yr oedd *Jewish Way of Life* yn addas ar gyfer disgyblion CA2 a CA3.

12. Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 2 Mawrth, 2009

Derbyniodd yr aelodau daflen a oedd yn crynhoi cyfarfod y Pwyllgor Gwaith. Tynnodd y Cadeirydd sylw at:

- (a) bwynt 5 ynglŷn â'r cyfarfod rhwng cynrychiolwyr CCYSAGauC a'r Gweinidog Addysg ar 25 Tachwedd 2009; derbyniodd yr aelodau daflen a oedd yn manylu ar ddeilliannau'r cyfarfod hwnnw;
- (b) canllawiau CCYSAGauC i ysgolion ar y ddeddfwriaeth ynglŷn ag addoli ar y cyd Ôl-16, a gynhwyswyd yn y papurau ar gyfer y cyfarfod.

by members (these were presented in greater depth in the previous WASACRE meeting). He also offered advisors a 'sale or return' option, if advisors wanted sets of resources to sell to schools. The resource, *RE ideas* was again highlighted as well as information relating to the benefits of LEA subscription to REMW.

(c) Tania ap Siôn informed members that the English version of the *World Faiths Today: Teachers' Handbook* was now published. She reminded members that this key stage 2 storybook series was included in Denize Morris' (Subject Officer for RE, DCELLS) presentation in the last WASACRE meeting which focused on Welsh Assembly Government support materials for religious education in the new curriculum.

She also drew attention to the interactive CD ROM, *Jewish Way of Life* produced by The Board of Deputies of British Jews and the Pears Foundation. Members received a copy of the CD ROM to take back to their SACREs. Individuals were able to order copies of the CD ROM from the supporting Jewish Way of Life website, while Tania ap Siôn would e-mail all clerks to SACRE details about how LEAs/SACREs could order free multiple copies to distribute to their schools. *Jewish Way of Life* is appropriate for KS2 and KS3 pupils.

12. Report from the Executive Committee meeting held on 2 March, 2009

Members received a handout summarising the Executive meeting. The Chair drew attention to:

- (a) point 5 concerning the meeting between WASACRE representatives and the Minister of Education on 25 November 2009, and members received a handout detailing the outcomes of that meeting;
- (b) the WASACRE guidance to schools on collective worship legislation Post-16 included in the papers for the meeting.

13. Cyfarfod gyda Brian Gibbons, y Gweinidog dros Gydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Cyflwynodd Leslie Francis adroddiad ar y cyfarfod rhwng cynrychiolwyr CCYSAGauC a Brian Gibbons, y Gweinidog dros Gydraddoldeb Cymdeithasol, ar 10 Mawrth 2009. Yr oedd y cyfarfod gyda Brian Gibbons yn un o ddeilliannau cyfarfod blynyddol CCYSAGauC gyda'r Gweinidog Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ym mis Tachwedd 2008, ac yr oedd wedi ei hyrwyddo gan APADGOS. Drwyddo draw, bu'r cyfarfod yn ddefnyddiol o ran datblygu gwell dealltwriaeth o natur a rôl addysg grefyddol ac o ran arwain at dri deilliant ymarferol:

- (a) Gyda chytundeb y Gweinidog Addysg, byddai cynrychiolydd o'r Adran Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn gwneud cyflwyniad i CCYSAGauC. Byddai CCYSAGauC yn ysgrifennu at y Gweinidog Addysg yn gofyn am gefnogaeth i'r fenter hon.
- (b) Gwahoddwyd CCYSAGauC i ymateb i'r ddogfen ymgynghori ar Gydlynid Cymunedol o safbwynt addysg grefyddol.
- (c) Mewn egwyddor, yr oedd Brian Gibbons yn cefnogi'r syniad o archwilio ffyrdd y gallai ei adran ef, APADGOS a CCYSAGauC gydweithio yn y dyfodol, ac yr oedd yn gefnogol i gynhwysiad y mater ar agenda'r cyfarfod nesaf rhwng cynrychiolwyr CCYSAGauC a'r Gweinidog Addysg.

Derbyniodd yr aelodau daflen a oedd yn crynhoi'r deilliannau hyn.

Diolchodd Mairwenna Lloyd i gynrychiolwyr CCYSAGauC am alluogi mentrau o'r fath, a oedd yn codi proffil CCYSAGauC ymhellach gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru.

14. U.F.A.

(a) Cyfeiriodd y Cadeirydd at y newidiadau o bwys a oedd yn digwydd yn y ddarpariaeth HAGA yng Nghymru, a thynnodd sylw arbennig at yr angen i fonitro'r maes hwn y flwyddyn nesaf.

(b) Diolchodd Rheinallt Thomas i awduron dogfen canllawiau CCYSAGauC ar addoli ar y cyd Ôl-16, ac anogodd GYSAG'au unigol i ganolbwyntio ar y mater hwn yn eu hysgolion.

13. Meeting with Brian Gibbons, Minister for Equality and Social Justice.

Leslie Francis reported on the meeting between WASACRE representatives and Brian Gibbons, Minister for Equality and Social Justice, 10 March 2009. The meeting with Brian Gibbons arose as one of the outcomes of WASACRE's annual meeting with the Minister of Children, Education, Lifelong Learning and Skills in November 2008, and was facilitated by DCELLS. Overall, the meeting was useful for developing greater understanding of the nature and role of religious education and for generating three practical outcomes:

- (a) With the agreement of the Minister of Education, a representative from the Department of Equality and Social Justice would make a presentation to WASACRE. WASACRE would write to the Minister of Education requesting support for this initiative.
- (b) WASACRE was invited to respond to the Community Cohesion consultation document from an RE perspective
- (c) In principle, Brian Gibbons supported the notion of exploring ways in which his department, DCELLS, and WASACRE could work together in the future and supported its inclusion on the agenda of the next meeting between WASACRE representatives and the Minister of Education.

Members received a handout summarising these outcomes.

Mairwenna Lloyd thanked WASACRE representatives for enabling such initiatives which raised further the profile of WASACRE with the Welsh Assembly Government.

14. A.O.B.

(a) The Chair referred to the major changes taking place in ITET provision in Wales, and highlighted the need to monitor this area next year.

(b) Rheinallt Thomas thanked the authors of the WASACRE guidance on collective worship at Post-16 document, and urged individual SACREs to focus on this matter with their schools.

| | |
|--|--|
| <p>(c) Estynnodd y Cadeirydd ei ddiolch i: Michael Gray, a oedd wedi sefyll yn y bwch fel Cadeirydd yn rhan gyntaf y cyfarfod; Richard Landy, Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg Pen-y-bont ar Ogwr; y Maer; Jane Thatcher, y Clerc i GYSAG Pen-y-bont ar Ogwr; Carys Thomas, Ymgynghorydd AG; a Garmon Davies, cyfieithydd.</p> | <p>(c) The Chair extended his thanks to: Michael Gray who stood in as Chair for the first part of the meeting; Richard Landy, Deputy Director of Education for Bridgend; the Mayor; Jane Thatcher, Clerk to Bridgend SACRE; Carys Thomas, RE Advisor; and Garmon Davies, translator.</p> |
| <p>Dyddiad y cyfarfod nesaf: 24 Mehefin 2009, yng Ngwesty'r Ffesant Gwyllt, Llangollen</p> | <p>Date of next meeting: 24 June 2009, Wild Pheasant Hotel, Llangollen</p> |